# BYW MEWN
# BYD O WAHANIAETH

Cwrs astudio pum sesiwn yn dathlu amrywiaeth oddi mewn i'r Cymundeb Anglicanaidd



UNITED SOCIETY
PARTNERS IN THE GOSPEL

USPG

# BYW MEWN BYD O WAHANIAETH

## Y Cymundeb Anglicanaidd – Dathlu Amrywiaeth

Llawenhawn ein bod yn rhan o'r Cymundeb Anglicanaidd – y mae'n rhyfeddod llwyr! Dyma'r drydedd fwyaf o'r cymunedau Cristnogol, ar ôl yr Eglwys Gatholig Rufeinig ac Eglwysi Uniongred y Dwyrain. Teulu byd-eang o ddegau o filiynau o bobl, pobl o dros 165 o wledydd sy'n ymestyn o gwmpas y byd o Gaergaint i Christchurch (Seland Newydd), o Jerwsalem i Johannesburg, o Trinidad i Tokyo.

Oddi mewn i'r Cymundeb ceir amrywiaeth diwylliannol enfawr. Siaredir cannoedd o ieithoedd. Mae Anglicaniaid ac Episgopaliaid yn byw mewn dinasoedd modern ac yng nghefn gwlad. Ac eto, ar waethaf y cyfoeth hwn o wahaniaeth ac amrywiaeth, mae'r Cymundeb yn rhannu llawer agwedd ar ei fywyd o ffydd yn Iesu Grist.

Nid oes un 'Eglwys Anglicanaidd' fyd-eang, yn hytrach y mae Eglwys Anglicanaidd hunan-lywodraethol ar gyfer pob un o'r 40 talaith. Gall talaith fod mewn un gwlad, ond gall hefyd fod mewn cylch o wledydd. Er enghraifft, y mae'r *Igreja Episcopal Anglicana do Brasil* (Eglwys Episgopalaidd Anglicanaidd Brasil) yn ymestyn ar draws Brasil yn unig; y mae Eglwys Anglicanaidd Canol Affrica yn ymestyn dros Botswana, Malawi,



Zambia a Zimbabwe. Rhennir pob talaith yn esgobaethau. Er enghraifft, y mae 28 esgobaeth yn Eglwys Anglicanaidd Tanzania. Ceir  ambell esgobaeth sy'n ymestyn dros fwy nag un gwlad; er enghraifft, Esgobaeth Ewrop sy'n rhan o Eglwys Loegr, ac Esgobaeth Singapore. Arweinir pob talaith gan archesgob neu brimas, ac arweinir pob esgobaeth gan esgob.



Oddi mewn i'r Cymundeb Anglicanaidd yn ogystal ceir Eglwysi Unedig Gogledd a De India, Pakistan a Bangladesh, lle mae enwadau Cristnogol gwahanol wedi dod ynghyd i ffurfio Eglwys Unedig. Y mae Eglwys Sanctaidd Gatholig Tsieina yn rhan o'r Eglwys ôl-enwadol. Mae gan y Cymundeb Anglicanaidd gyd-berthynas agos, ac y mae mewn cymundeb ag, eglwysi eraill, gan gynnwys, ymhlith eraill, *Iglesia Filipina Independiente*.

Rhoddir ffocws a chyfeiriad i'r Cymundeb Anglicanaidd gan yr hyn a elwir y pedwar 'Offeryn Cymundeb', sef:

- Archesgob Caergaint, fel 'y cyntaf ymhlith y cyfartal'.
- Cynhadledd Lambeth, a gynhelir bob rhyw 10 mlynedd, y gwahoddir esgobion ac archesgobion iddi.
- Cyfarfod y Primasiaid, y gwahoddir arweinydd pob talaith iddo.



# CYNNWYS


Gwneud yn fawr o'r cwrs astudio hwn 5

**ASTUDIAETH 1**
Undeb mewn amrywiaeth 6

**ASTUDIAETH 2**
Deall ein gilydd trwy gyd-gerdded 10

**ASTUDIAETH 3**
Gyda'n gilydd yn wyneb terfysg 14

**ASTUDIAETH 4**
Cydweithio i adeiladu'r Eglwys yn Tanzania 18

**ASTUDIAETH 5**
Antur ddwyieithog yn ne Llundain 22

Cyfrannu i wneud gwahaniaeth 26

Bod yn rhan o'r newid 31



Cyfieithwyd gan Noel Davies

**Clawr:** Delwedd Gyfansawdd o Hemisffêr Gorllewinol y Ddaear (*NASA/GSFC/NOAA / USGS/Wiki Commons*)

**Uchod chwith:** Baner Cwmpawd Rhosyn y Cymundeb Anglicanaidd (*Y Cymundeb Anglicanaidd*)

**Uchod chwith a throsodd:** Y Parchedicaf Justin Welby, Archesgob Caegaint, yn ystod ei daith i India (*Palas Lambeth*)



- Y Cyngor Anglicanaidd Ymgynghorol, sy'n cyfarfod bob tair mlynedd, sydd ag aelodaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr lleyg ac ordeiniedig o'r Eglwys ym mhob talaith.

Cafodd dros 1500 o esgobion a'u gwragedd neu wŷr o bob rhan o'r Cymundeb eu gwahodd i ymgasglu yng Nghaergaint ar gyfer Cynhadledd Lambeth yn ystod Gorffennaf ac Awst 2020. Bydd y Gynhadledd yn cofleidio amrywiaeth y Cymundeb – ei thema yw 'Eglwys Dduw er mwyn Byd Duw: cyd-gerdded, cyd-wrando a chyd-dystio'. Bydd yn ceisio arweiniad Duw ac ysbrydoliaeth ar gyfer cyfeiriad y Cymundeb yn y dyfodol. Sail yr Astudiaethau Beiblaidd fydd Epistol Cyntaf Pedr.

Rhydd maint ac amrywiaeth y Cymundeb Anglicanaidd safle arwyddocaol iddo ar lwyfan y byd. Mae'n llefaru o blaid gwirionedd a chyfiawnder yng nghoridorau grym, tra ar yr un pryd yn gofalu dros y claf, y galarus a'r rhai ar yr ymylon.

Ond mae'r amrywiaeth hwn yn dwyn heriau hefyd. Yn yr astudiaeth hon cawn glywed o bump ardal lle mae Anglicaniaid yn cael eu herio i weithio trwy eu gwahaniaethau, i gyd-weithio yn wyneb treialon, i weithio y tu allan i'w parth cysurus ac mewn ffyrdd newydd, fel y gall Teyrnas Dduw ddod mewn ffyrdd ffres. Wrth ichi ddarllen y storïau hyn ac ystyried y cwestiynau a'r darnau o'r Beibl, gobeithiwn y cewch eich herio, eich calonogi a'ch ysbrydoli ar siwrnai eich ffydd. ■

USPG yn gweithio ar draws y Cymundeb Anglicanaidd



# GWNEUD Y GORAU O'R CWRS ASTUDIO HWN

**1.** Ymrwymwch i fod yn bresennol ymhob sesiwn. Fel hyn, cewch y gorau allan o'r cwrs a byddwch yn cyfrannu at sicrhau dilyniant y grŵp. Ceisiwch wrthod ymrwymiadau neu wahoddiadau eraill allai godi ar adegau pan gynhelir eich astudiaeth.

**2.** Dechreuwch bob astudiaeth gyda chyfnod byr o dawelwch i helpu canoli'r grŵp a dod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch y weddi ar ddechrau deunydd pob sesiwn gyda'ch gilydd.

**3.** Ymrwymwch i rannu'n onest a gwrando heb farnu neu geisio 'sortio' bywyd rhywun arall drostynt. Ceisiwch greu hinsawdd ddiogel lle gall pobl deimlo y gallant rannu'n agored. Cofiwch nad yw'r atebion i gyd gan neb ohonom; ein nod yw bod yn real, yn ddilys ac yn gyfan – nid yn berffaith!

**4.** Dylech gydnabod fod profiad pawb o fywyd a ffydd yn unigryw a gwerthfawr. Ceisiwch dderbyn eich gilydd yn union fel yr ydym, yn union fel mae Duw'n derbyn pob un ohonom.

**5.** Rhowch gyfle i bawb siarad, er na ddylai neb deimlo gorfodaeth i wneud hynny. Os ydych yn berson sy'n dueddol i siarad llawer, cofiwch roi cyfle i eraill sy'n ei chael yn fwy anodd i rannu.

**6.** Darllenwch y deunydd o flaen llaw a threuliwch amser yn gadael i'r cynnwys dreiddio i mewn – ond nid er mwyn dod o hyd i atebion, o angenrheidrwydd. Sylwch fod rhai o'r erthyglau wedi eu hargraffu yn yr iaith wreiddiol yn ogystal â mewn cyfieithiad Cymraeg. Y mae hyn ynddo'i hun yn adlewyrchu amrywiaeth y Cymundeb Anglicanaidd. Os yw aelod o'ch grŵp yn medru'r iaith honno gallech ddefnyddio'r ddwy iaith yn eich astudiaeth.

**7.** Daw'r dyfyniadau o'r Beibl o gyfieithiad Beibl.net (Hawlfraint Gobaith i Gymru 2019, gyda chaniatâd). Os hoffech, gallech edrych hefyd ar yr un darnau yn y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004) ac ystyried unrhyw wahaniaethau.

**8.** Cofiwch y gall geiriau crefyddol a diwinyddol olygu rhywbeth gwahanol i wahanol bobl. Rhannwch eich persbectif chi a gadewch i eraill gael persbectif gwahanol.

**9.** Dewch â'r sesiwn i ben mewn gweddi. Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis pa iaith i ddefnyddio. Mewn rhai grwpiau gallai hyn arwain at gymysgedd aflafar o ieithoedd (fel yn Actau 2); dathlwch yr amrywiaeth hwn, sy'n nodweddiadol o brofiad y Cymundeb Anglicanaidd! Daw'r holl weddïau yn y cwrs astudio hwn o lyfr USPG 'Praying with the World Church' y gellir dod o hyd iddo ar www.uspg.org.uk/pray.

# ASTUDIAETH 1
# UNDEB MEWN AMRYWIAETH



## GWEDDI AGORIADOL

**Treuliwch ychydig amser mewn tawelwch gyda'ch gilydd i lonyddu'ch meddyliau a dwyn ar gof bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd:**

Arglwydd, boed inni fyw, gweithio a gweddïo fel un corff Crist;
i beidio â gwneud dim ar wahân y gallwn ei wneud gyda'n gilydd
ac i wneud gyda'n gilydd bopeth na allwn ei wneud ar wahân. Amen.
*Papwa Gini Newydd ac Ynysoedd y Solomon*

**Uchod:** Croesawu i addoliad yn Fiji yn ystod ymgynghoriad rhyngwladol USPG yn 2016 (*USPG*)

## CYFLWYNIAD

**Fel y mae ei henw'n awgrymu, mae'r Eglwys Anglicanaidd yn Aotearoa, Seland Newydd a Polynesia yn cynnwys tair elfen gyfartal. Ceir yn y dalaith dair ffrwd ddiwylliannol. Sonnir amdanynt fel y Tri Tikanga – y Maori, y Polynesaidd a'r Pakeha (sef, o dras Ewropeaidd). Tra bod un Synod Gyffredinol mae gan bob eglwys ei ffordd ei hun o lywodraethu, o benderfynu, o hyfforddi gweinidogion ac o ddathlu'r litwrgi, yn tarddu o'i chyd-destun diwylliannol.**

Y mae tri Primas sy'n rhannu awdurdod. Gweithredwyd y penderfyniad i ffurfio eglwys Tri Tikanga yn 1992 er mwyn cydnabod yn ffurfiol y tair ffordd hanfodol hon a phwysigrwydd y mynegiant penodol o Anglicaniaeth ym mhob un ohonynt, yn eu cyd-destun eu hunain. Dywed cyfansoddiad yr eglwys ei bod yn ofynnol "i warchod hawl pob person i ddewis unrhyw fynegiant diwylliannol o'r ffydd". Te Hāhi Mihinare ki Aotearoa, neu Te Pīhopatanga o Aotearoa yw'r Eglwys Anglicanaidd Maori; Tikanga Pasefika yw'r Eglwys Anglicanaidd Bolynesaidd a Tikanga Pakeha yw'r Eglwys Anglicanaidd Pakeha.

Ers tro, bu'r eglwys hon yn wynebu a chroesawu her a llawenydd ei hamrywiaeth. Mae gan bob eglwys ei dulliau cyd-destunol addas ei hun mewn perthynas â strwythur, awdurdod, gwneud penderfyniadau a mynegiant litwrgaidd, sy'n pwysleisio a chofleidio pob rhan ac yn diffinio ffordd newydd o fod yn eglwys gyfan. Y mae eu gwroldeb a'u hymrwymiad i fod gyda'i gilydd, gan beidio anwybyddu eu hamrywiaeth ond ei ddathlu, yn dystiolaeth rymus yn y Cymundeb.

Dyma un o'r tri Primas, Archesgob Fereimi Cama o Polynesia, yn adlewyrchu ar ei ran ef yn y dalaith a phwysigrwydd dathlu undod mewn amrywiaeth:

## Stori o Polynesia

'Pan fyddaf yn myfyrio ar eiriau 1 Pedr 3.8-12, mae un peth yn eglur: ni all cydymdeimlad a hunanoldeb gyd-fyw. Tra mai'r hunan yw'r peth pwysicaf yn y byd, ni all fod y fath beth â chydymdeimlad gan fod cydymdeimlad yn dibynnu ar barodrwydd i anghofio hunan ac uniaethu â phoenau a gofidiau eraill. Yma mae Pedr yn sôn am gariad at frawd a chwaer sy'n mynd yn ôl at eiriau Iesu: 'Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi… carwch eich gilydd fel y cerais i chwi'.

Y mae'r Eglwys Anglicanaidd yn Aotearoa, Seland Newydd a Polynesia yn Eglwys Tri Tikanga sy'n cynnwys Tikanga Maori, Tikanga Pakeha a Tikanga Polynesia ac mae hyn ynddo'i hun yn arddangos cryn amrywiaeth. Ceir yn ein plith gyd-destunau, diwylliannau ac ieithoedd gwahanol ac ar brydiau rhoddir prawf ar ein perthynas â'n gilydd oherwydd y gwahaniaethau hyn ond, oherwydd ein cariad at Dduw, ceisiwn weithio gyda'n gilydd a dathlu ein hundod mewn amrywiaeth.

Cyfansoddir Esgobaeth Polynesia o bedwar prif grŵp o bobl: Fijiaidd, Indo-Fijiaidd, Tongaidd a Samoaidd. Mae

gennym ddiwylliannau ac ieithoedd gwahanol ac mae bob amser yn her i geisio cynnwys anghenion a gobeithion pawb. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf cafodd ein hoffeiriaid eu dosbarthu ar sail ethnigrwydd lleol ac rwy'n gobeithio newid hyn. Byddem yn hoffi cylchdroi'n hoffeiriaid ymhlith y pedair cymuned ethnig yn y tair gwlad. Bydd hyn yn eu galluogi i ddeall cyd-destun ac iaith ein pobl yn Esgobaeth Polynesia. Ni fydd hyn yn ymarferiad hawdd ond os byddwn yn glynu at yr hyn mae Pedr yn ei ddweud am weithio mewn undeb gydag ysbryd o 'gydymdeimlo â'n gilydd, dangos gofal go iawn am ein gilydd, a bod yn dyner ac yn ostyngedig yn ein perthynas â'n gilydd' byddwn yn medru pontio'r gagendor sydd wedi bodoli rhwng ein pobl dros y blynyddoedd.

Er gwaethaf natur amrywiol Esgobaeth Polynesia, rydym wedi medru cyd-fyw â'n gilydd. Parchwn a dathlwn ein hundeb mewn amrywiaeth. Fel y dywedodd Iesu, rhaid inni garu'r Arglwydd ein Duw gyda'n holl galon, ein holl enaid, ein holl feddwl a'n holl nerth – a charu ein cymdogion fel y carwn ein hunain.' ■

## Cwestiynau

- Mae Esgobaeth Polynesia yn dal ynghyd bobl o ddiwylliannau ac ethnigrwydd gwahanol. Beth dybiwch chi yw bendithion a heriau bod â phobl o ethnigrwydd a diwylliannau gwahanol yn yr eglwys a'r gymuned?

- Meddyliwch am eich eglwys a'ch cymuned leol chi: ble welwch chi amrywiaeth? A ydyw amrywiaeth demograffig eich ardal leol yn cael ei adlewyrchu yng nghymuned eich eglwys?

## DARLLENIAD O'R BEIBL

### 1 Pedr 3.8-12

8 Ac yn olaf, dylai pob un ohonoch chi ddysgu dod ymlaen gyda'ch gilydd. Dylech
gydymdeimlo â'ch gilydd, dangos gofal go iawn am eich gilydd, a bod yn dyner ac yn
ostyngedig yn eich perthynas â'ch gilydd.
9 Peidiwch talu'r pwyth yn ôl drwy enllibio
rhywun am eu bod nhw wedi'ch enllibio chi. Yn lle hynny, bendithiwch nhw! Dyna
mae Duw am i chi ei wneud, a bydd Duw wedyn yn eich bendithio chi.
10 Dyna mae'r
ysgrifau sanctaidd yn ei dweud:

"Os dych chi am fwynhau bywyd a gweld dyddiau da, rhaid i chi reoli'ch tafod.
Dweud dim byd cas am neb, a stopio twyllo.

11 Trowch gefn ar ddrygioni a gwneud daioni;
gwnewch eich gorau i gael perthynas dda gyda phawb.

12 Mae'r Arglwydd yn gofalu am y rhai sy'n gwneud beth sy'n iawn
ac yn gwrando'n astud ar eu gweddïau nhw;
ond mae Duw yn erbyn y rhai sy'n gwneud drygioni."

## Cwestiynau

- I ba raddau y mae'ch eglwys chi yn llwyddo i 'gydymdeimlo â'ch gilydd, dangos gofal go iawn am eich gilydd, a bod yn dyner ac yn ostyngedig yn eich perthynas â'ch gilydd'?

- I ba raddau y mae'ch eglwys chi yn ymwybodol o undod yn eich cymuned leol ac yn ei hyrwyddo? Sut y gallech gynyddu'ch ymwybyddiaeth o a'ch ymwneud â materion cymunedol sy'n dwyn heddwch ac undod?

- Mae Esgobaeth Polynesia yn parchu a gwerthfawrogi undod mewn amrywiaeth. Ym mha ffyrdd y mae hyn yn wir hefyd yn eich eglwys chi? A sut y gallech wella ar hyn?

## GWEDDÏAU I GLOI

**Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis ei iaith/hiaith ei hun.**

**Cadwch gyfnod o dawelwch, a'i ddilyn gan gyfle i weddïo'n gyhoeddus am unrhyw faterion a gododd yn ystod y sesiwn. Gorffennwch drwy gyd-weddïo:**

Hollalluog Dduw,
sy'n ewyllysio bod pawb yn cael eu hachub
a dod i wybodaeth o'r gwirionedd:
danfon allan weithwyr i'r cynhaeaf,
fel y daw pawb i'th adnabod di,
yr unig wir Dduw,
ac Iesu Grist, yr hwn a ddanfonaist,
ein hunig Arglwydd a'n Gwaredwr. Amen.
*Cenadaethau Anglicanaidd Eglwys Aotearoa, Seland Newydd a Polynesia*

# ASTUDIAETH 2
# DEALL EIN GILYDD TRWY GYD-GERDDED




## GWEDDI AGORIADOL

**Treuliwch ychydig amser mewn tawelwch gyda'ch gilydd i lonyddu'ch meddyliau a dwyn ar gof bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd:**

Dysg imi, O Dduw, beidio â barnu fy nghymydog
nes imi gerdded milltiroedd lawer yn ei sandalau
a chario ei baich ar f'ysgwyddau.
Yn hytrach, gwna fi'n ymwybodol o anghenion fy nghymydog. Amen.
*O Chile*

**Uchod:** Gorymdaith dros amddiffyn rhyddid crefyddol a gynhaliwyd yn Rio de Janeiro, Brasil (*Koinonia*)

## CYFLWYNIAD

**Brasil yw'r wlad fwyaf yn America Ladin, gydag amrywiaeth rhyfeddol o ethnigrwydd a diwylliannau. Mae gan y genedl hanes cymhleth ac, ar brydiau, hanes poenus: yn cynnwys ecsploetio pobloedd brodorol, gwladychu, effeithiau'r fasnach caethwasiaeth, ymfudo rhyngwladol a mewnol anferth, cynnydd diwydiannol cyflym, diraddio mewn crefyddau traddodiadol, ac anghyfartaledd enfawr rhwng y materol gyfoethog a'r materol dlawd a rhwng trigolion trefol a gwledig. Gall amrywiaeth o'r fath greu tyndra yn hawdd.**

Y mae gwreiddiau yr *Igreja Episcopal Anglicana do Brasil*, IEAB, (Eglwys Episgopalaidd Anglicanaidd Brasil) yn mynd yn ôl i 1810, gyda sefydlu caplaniaethau Anglicanaidd i'r sawl a ymfudodd i'r wlad o Brydain. Cyrhaeddodd cenhadon Episgopalaidd o UDA yn Porte Alegre yn ne Brasil yn 1889, yn dilyn gwahanu Eglwys a Gwladwriaeth, ac o'r fan honno ymledodd y genhadaeth tua'r Gogledd. Daeth y Dalaith, sy'n un o'r ychydig sy'n Bortwgaleg eu hiaith yn y Cymundeb, yn hunanlywodraethol yn 1965. Bellach y mae'n cynnwys naw esgobaeth ac un ardal genhadol. Dylanwadir yr IEAB gan Ddiwinyddiaeth Rhyddhad, gan fyw'r Efengyl gydag 'ochri gyda'r tlawd' yn amlwg, ynghyd â chysylltiadau ecwmenaidd a rhyng-grefyddol cryf.

Esgob Anglicanaidd Rio De Janeiro, Eduardo Coelho Grillo, sy'n esbonio sut mae'r orymdaith flynyddol drwy'r ddinas yn arwain at ddealltwriaeth lawnach a chyd-ymddiried dyfnach.

## Story from Brazil

Bu mudiad rhyng-grefyddol cryf a gwrol yn Rio de Janeiro ers dros 10 mlynedd. O dan yr arwyddair 'Deallwn ein gilydd wrth inni gyd-gerdded', bu grwpiau crefyddol gwahanol yn cerdded gyda'i gilydd yn llythrennol drwy rhai o strydoedd pwysicaf y ddinas mewn awyrgylch o gyd-ymddiried a pharch.

Dyma weithred wrol o gymundeb mewn gwlad sydd wedi ei halogi gan gaethwasiaeth pobloedd brodorol ac Affricanaidd. Dros gyfnod o 300 mlynedd, bu'r hyn a elwid yn gymdeithas Gristnogol orllewinol yn 'demoneiddio' profiadau pobloedd brodorol ac Affricanaidd gan greu rhagfarn, gwawd a thrais. Mewn llawer man ym Mrasil, bu mannau addoli Umbanda a Candomble yn dargedau trais a dinistr – hyd yn oed yn ystod yr wythnos rwy'n ysgrifennu'r geiriau hyn. Ac eto, bob mis Medi gwelwn yr orymdaith hon drwy strydoedd Rio de Janeiro, yn ffrwyth goddefgarwch, parch a chyd-dderbyn wrth i Gristnogion, Iddewon, Moslemiaid, Bwdïaid, ysbrydegwyr, ac aelodau Baha'i, Wicca, Umbanda, Candomble a chrefyddau eraill cyd-gerdded.

Y dyddiau hyn, y mae ton gynyddol o ddiffyg goddefgarwch, ffwndamentaliaeth a thrais crefyddol ym Mrasil, sydd wedi arwain at weithredoedd brawychus o drais emosiynol a chorfforol. Ond daliwn i gredu fod cariad yn trechu casineb, fel y buom yn ei wneud yn glir mewn digwyddiadau cyhoeddus ecwmenaidd a deialog rhyng-grefyddol. Rydym wedi'n gwreiddio'n gadarn yng ngeiriau Galatiaid 3.28: 'Sdim ots os ydych chi'n Iddew neu'n perthyn i genedl arall, yn gaethwas neu'n ddinesydd rhydd, yn ddyn neu'n wraig – dych chi i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu.' ■

## Uma história do Brasil

Um forte e bravo movimento inter-religioso tem acontecido no Rio de Janeiro pelos últimos 10 anos. Sob o lema *"Caminhando é que a gente se entende"*, diferentes grupos religiosos têm literalmente caminhado juntos por algumas das ruas mais importantes da cidade, numa atmosfera de confiança e respeito.

Este é um simbólico ato de comunhão num país historicamente manchado pela escravização de povos originais indígenas e estrangeiros africanos. Durante mais de 300 anos, a chamada sociedade cristã ocidental "demonizou" as práticas religiosas indígenas e africanas, gerando preconceito, deboche e violência. Em muitos lugares no Brasil, templos do Candomble e da Umbanda tem sido frequentes alvos de violência e destruição, inclusive nesta semana em que escrevo esse texto. Ainda assim, todo mês de Setembro acompanhamos caminhadas em várias partes do Rio de Janeiro num belo sinal de respeito, tolerância e aceitação a medida que Cristãos, judeus, muçulmanos, budistas, espiritualistas, membros de fé Baha'i, da Wicca, da Umbanda e do Candomblé, e outros grupos religiosos caminham juntos pelas ruas da cidade.

Uma crescente onda de intolerância, fundamentalismo e violência religiosa nesses dias no Brasil que tem levado a perturbadores atos de violência emocional e física. Porém, continuamos a acreditar que **o amor vence o ódio** e temos proclamado reiteradamente em eventos públicos que expressam nossa fé no diálogo ecumênico e inter-religioso. Estamos firmemente fundamentados nas palavras de Gálatas 3,28: *"Não há judeu nem grego, escravo nem livre, homem nem mulher; pois todos são um em Cristo Jesus."* ■

## Cwestiynau

- Beth mae 'cyd-gerdded' yn ei arwyddo yng nghyd-destun yr hanes hwn? A oes rhywbeth cyffelyb yn eich cymuned neu'ch gwlad? Sut mae'r eglwys yn ymateb?
- A oes grwpiau oddi mewn i'ch cymuned chi sy'n wirioneddol wedi eu gwthio i'r ymylon oherwydd eu cred a'u harferion? Sut y gallai'ch eglwys chi ymwneud â'r grwpiau hyn?
- Ble mae'r cyfleoedd i'ch eglwys chi sefyll mewn solidariaeth gydag eraill? Sut a pham y gallech wneud hyn?

## DARLLENIADAU O'R BEIBL

### Galatiaid 3.23-28

23 Cyn i'r Meseia ddod roedd y Gyfraith yn ein dal ni'n gaeth – roedden ni dan glo nes
i'w ffyddlondeb e gael ei ddangos i ni. 24 Pwrpas y Gyfraith oedd ein gwarchod ni a'n
harwain ni at y Meseia, er mwyn i ni ddod i berthynas iawn gyda Duw drwy gredu
ynddo. 25 Mae e wedi bod yn ffyddlon, ac felly dim y Gyfraith sy'n ein gwarchod ni
bellach. 26 Dych chi i gyd yn blant Duw drwy gredu yn y Meseia Iesu. 27 Mae pob un
ohonoch chi wedi uniaethu gyda'r Meseia drwy eich bedydd – mae'r un fath â'ch bod
wedi gwisgo'r Meseia amdanoch. 28 Sdim ots os ydych chi'n Iddew neu'n perthyn i

## DARLLENIADAU O'R BEIBL

genedl arall, yn gaethwas neu'n ddinesydd rhydd, yn ddyn neu'n wraig – dych chi i gyd fel un teulu sy'n perthyn i'r Meseia Iesu.

### 1 Pedr 3.15-16

15 Addolwch y Meseia â'ch holl galon, a'i gydnabod e'n Arglwydd ar eich bywydau.
Byddwch barod bob amser i roi ateb i bwy bynnag sy'n gofyn i chi esbonio beth ydy'r
gobaith sydd gynnoch chi. 16 Ond byddwch yn garedig wrth wneud hynny, a dangos y
parch fyddai Duw am i chi ei ddangos atyn nhw.

### Cwestiynau

- Cred Esgob Eduardo fod ei esgobaeth ef wedi ei 'gwreiddio'n gadarn yn Galatiaid 3.28'. I ba raddau y mae'ch eglwys chi'n adlewyrchu'r adnod hon? I ba raddau y mae lle i dyfu'n nes at y ddelfryd hon, a sut y byddech yn dechrau gwneud hynny?
- Cawn ein hatgoffa yn adnod 27 fod 'pob un ohonoch chi wedi uniaethu gyda'r Meseia drwy eich bedydd – mae'r un fath â'ch bod wedi gwisgo'r Meseia amdanoch.' Sut mae'ch eglwys chi yn annog gweinidogaeth holl deulu'r rhai a fedyddiwyd – a elwir ambell dro yn 'weinidogaeth pob aelod'? Ym mha ffordd y gallech chi'n bersonol dyfu'n ddyfnach yn y weinidogaeth y mae Duw wedi'ch galw iddi?
- Cawn ein hatgoffa yn 1 Pedr 3.16 y dylem dystio i Grist 'yn garedig...gan ddangos parch.' Beth yw goblygiadau'r gwahoddiad hwn parthed tystiolaeth a gweinidogaeth eich eglwys ymhlith y sawl sydd y tu allan i'r gymuned Gristnogol?

## GWEDDÏAU I GLOI

**Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis ei iaith/hiaith ei hun. Cadwch gyfnod o dawelwch, a'i ddilyn gan gyfle i weddïo'n gyhoeddus am unrhyw faterion a gododd yn ystod y sesiwn. Gorffennwch drwy gyd-weddïo:**

Fy enaid, rho fawl i'n Harglwydd da,
dyro gân i enw'r Arglwydd,
oherwydd mae Duw wedi dwyn fy mywyd
i ddyfroedd bywiol pan oeddwn yn sychedig.
Bwydodd Duw fi â Bara'r Bywyd
pan oeddwn yn newynu.
Cynhaliodd fi ar hyd fy nyddiau
heb unwaith godi cywilydd arnaf.
Fy enaid, rho fawl i'n Harglwydd da,
am ei holl ddaioni. Amen.
*O Uruguay*

# ASTUDIAETH 3
# GYDA'N GILYDD YN WYNEB TERFYSG




## GWEDDI AGORIADOL

**Treuliwch ychydig amser mewn tawelwch gyda'ch gilydd i lonyddu'ch meddyliau a dwyn ar gof bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd:**

Dduw, fy nghreawdwr, agoraf fy nghalon iti.
Boed imi droi tuag atat fel mae blodyn yr haul yn troi at yr heulwen.
Dduw, fy ngwaredwr, dwg o'm calon bopeth nad yw'n gariad
fel y gallaf estyn tuag atat yn fy annheilyngdod.
Dduw, sy'n sancteiddio,
teithia gyda mi ar hyd ffordd fy mywyd
fel y bydd popeth ydwyf a phopeth a wnaf
yn dwyn gogoniant i ti, y Duw sy'n Dri yn Un. Amen.
*O Sri Lanka*

**Uchod:** Cysegrfan Sant Anthony, Kochchikade, yr eglwys gyntaf i gael ei bomio, Colombo, Sri Lanka (*AntanO/Wiki Commons*)

## CYFLWYNIAD

**Lladdwyd tua 300 o bobl a chlwyfwyd tua 500 mewn ymosodiad bom hunan-laddiad ar eglwysi a gwestai yn Sri Lanka ar Sul y Pasg 2019. Syfrdanwyd y genedl ac fe'i gadawyd mewn galar a dryswch. Fe ymatebodd yr arweinwyr Anglicanaidd i'r trawma hwn. Bu i Esgob Colombo, Dhiloraj Canagasabey, ac Esgob Kurunegala, Keerthisiri Fernando ymestyn allan ar draws cymunedau crefyddol amrywiol y wlad, gan ymbil am ymateb unol a heddychlon.**

Rhybuddiodd yr esgobion hefyd rhag ysbryd dialgar. Er eu bod yn gwybod fod yr Eglwys Anglicanaidd yn darged, ni wnaeth hyn eu rhwystro rhag galw am ymateb heddychlon a digyffro gan Gristnogion. Safasant yn ddewr dros gymuned Foslemaidd Sri Lanka a wynebodd fygythion, trais a chael eu heithrio yn dilyn yr ymosodiadau. Ymestynnodd yr eglwys allan, gyda chariad a solidariaeth, at deuluoedd y rhai a ddioddefodd yn ogystal ag at y gymuned Foslemaidd oedd yn wynebu rhagfarn eithafol. Y mae llawer achos o hyd o Foslemiaid a Christnogion ar draws y byd yn sefyll gyda'i gilydd mewn solidariaeth a chefnogaeth, gan gondemnio trais o unrhyw fath yn erbyn unrhyw grŵp crefyddol.

Nid peth anarferol oedd i'r Eglwys Anglicanaidd alw am heddwch. Mae gan Esgob Dhiloraj enw am sefyll yn erbyn trais o unrhyw fath. Gwnaeth safiadau yn y gorffennol a chondemnio trais gwrth-Foslemaidd yn Sri Lanka. Wedi ymosodiadau treisgar iawn yn erbyn Moslemiaid yn 2014 dywedodd: "Mae Sri Lanka yn gartref i wahanol gymunedau sydd wedi cyd-fodoli ar draws y canrifoedd, a phob un ohonynt wedi bod yn bartner yn natblygiad y genedl. Rhaid iddynt gael mwynhau yr hawl i ddiogelwch ac urddas fel dinasyddion cyfartal mewn Sri Lanka Unedig".

Cyhoeddodd yr esgobion ddatganiad ar y cyd yn dilyn ymosodiadau 2019. Dyma ran o'r hyn oedd ynddo:

## Stori o Sri Lanka

Dyma'r adeg briodol i bawb sydd â ffydd a chred yn y genedl hon i ddod at ein gilydd yn ein dynoliaeth gyffredin, i ddal dwylo ac i weithio tuag at adeiladu Un Teulu o Un Genedl. Rhaid inni ymrwymo'n hunain i adeiladu gyda'n gilydd bontydd o ymddiriedaeth a hyder. Rhaid i rywbeth prydferth, rhywbeth persawrus, rhywbeth cadarnhaol godi allan o rwbel y llanast hwn.

Ni allwn ac ni ddylem weithredu ar sail "llygad am lygad a dant am ddant" ond rhaid inni ddilyn esiampl y Meistr a chrio'r un gri ag yntau ar y groes gyda'r un tristwch a phoen calon ag yntau, gan ddweud – 'Dad, maddau iddyn nhw. Dŷn nhw ddim yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud'.

Galwaf ar ein holl gyd-ddinasyddion, a Christnogion yn arbennig, i gofleidio'r gymuned Foslemaidd sydd wedi byw'n heddychlon yn y wlad hon dros gannoedd o flynyddoedd. Rhaid eu trin gyda chariad a chydymdeimlad.

Mae'n bwysig fod ein pobl yn deall na ellir cyffredinoli parthed gweithredu eithafol a threisgar fel hyn. Rydym yn deall

fod pawb o bob crefydd ac ethnigrwydd yn y wlad yn medru deall y sefyllfa hon ac wedi dangos y fath aeddfedrwydd yn dilyn y don enbyd ddiweddaraf hon o drais.

Rhaid inni fynd ymhellach ac ymrwymo i weithredoedd o gysuro ac iachau. Dyma'r adeg...inni ddod at ein gilydd i ddiogelu'n gilydd. Dyma adeg ein hundod fel trigolion Sri Lanka, i fod gyda'n gilydd yn yr amrywiaeth rydym yn ei fwynhau yn ein cymunedau. Mae amrywiaeth yn rhodd gan Dduw. Gadewch inni ddathlu rhodd ryfeddol amrywiaeth. Gadewch inni'n wirioneddol ddysgu parchu'n gilydd, gan roi o'r naill ochr ein gwahaniaethau a'n hagenda breifat. ■

## Cwestiynau

- Bu'r berthynas rhwng Moslemiaid a Christnogion yn Sri Lanka yn un dda ers cannoedd o flynyddoedd cyn ymosodiad Pasg 2019. Gwelwn yma sut mae dylanwadau allanol yn medru tanseilio cyd-berthynas hir dymor. A oes enghreifftiau yn eich eglwys a'ch cymuned chi lle mae cyd-berthynas dda wedi ei thanseilio gan amgylchiadau gwahanol, a sut y bu ichi ddeilio â nhw?
- Sut y gall eich eglwys chi ddeall yn well achosion posibl gwrthdaro yn eich cymuned a gweithio tuag at gymod?
- Pa fudiadau sy'n gweithio dros heddwch ymhlith gwahanol gymunedau ffydd yn eich gwlad, a sut y mae, neu sut y gallai, eich eglwys chi fod yn rhan o hyn?

## DARLLENIAD O'R BEIBL

### Actau 17.22-31

22 Dyma Paul yn sefyll ar ei draed o flaen cyngor yr Areopagus, a'u hannerch fel hyn: "Bobl
Athen! Dw i'n gweld tystiolaeth ym mhobman eich bod chi'n bobl grefyddol iawn. 23 Dw
i wedi bod yn cerdded o gwmpas yn edrych yn ofalus ar yr hyn dych chi'n ei addoli. Yng
nghanol y cwbl des i o hyd i un allor oedd â'r geiriau yma wedi'u cerfio arni: I'R DUW
ANHYSBYS. Dyma'r Duw dw i'n mynd i ddweud wrthoch chi amdano – yr un dych chi'n ei
addoli ond ddim yn ei nabod. 24 "Fe ydy'r Duw wnaeth greu'r byd a phopeth sydd ynddo.
Mae'n Arglwydd ar y nefoedd a'r ddaear. Dydy e ddim yn byw mewn temlau sydd wedi'u
hadeiladu gan bobl, 25 a dydy pobl ddim yn gallu rhoi unrhyw beth iddo – does dim byd
sydd arno'i angen! Y Duw yma sy'n rhoi bywyd ac anadl a phopeth arall i bawb. 26 Fe ydy'r
Duw wnaeth greu y dyn cyntaf, a gwneud ohono yr holl genhedloedd gwahanol sy'n byw
drwy'r byd i gyd. Mae'n penderfynu am faint fydd y cenhedloedd yna'n bodoli, a lle'n
union mae eu ffiniau daearyddol. 27 Gwnaeth hyn i gyd er mwyn iddyn nhw geisio dod o
hyd iddo, ac estyn allan a'i gael. A dydy e ddim yn bell oddi wrthon ni mewn gwirionedd...'
28 Fel dwedodd un o'ch beirdd chi, 'Dŷn ni'n byw, yn symud ac yn bod ynddo fe.' Ac
mae un arall yn dweud, 'Ni yw ei blant.' 29 "Felly, os ydyn ni'n blant Duw, ddylen ni ddim
meddwl amdano fel rhyw ddelw o aur neu arian neu faen – sef dim byd ond cerflun wedi'i
ddylunio a'i greu gan grefftwr! 30 Ydy, mae Duw wedi diystyru'r fath ddwli yn y gorffennol,

## DARLLENIAD O'R BEIBL

> ond bellach mae'n galw ar bobl ym mhobman i droi ato. [31] Mae e wedi dewis diwrnod pan fydd y byd i gyd yn cael ei farnu. Bydd y farn yna'n gwbl deg. Mae wedi dewis dyn i wneud y barnu, ac mae wedi dangos yn glir ei fod yn mynd i wneud hyn drwy ddod â'r dyn hwnnw yn ôl yn fyw ar ôl iddo farw."'

### Cwestiynau

- 'Ni yw ei blant.' Sut mae'ch eglwys chi'n adnabod eraill sydd tu allan i'ch cymuned chi fel plant Duw a sut mae hyn yn effeithio'ch perthynas â nhw?
- Os nad yw Duw ymhell oddi wrth bob un ohonom (ad 27), ym mha ffyrdd y gallwn ymestyn allan at Dduw, hyd yn oed gyda phobl sydd y tu allan i'n cymuned ffydd ni?
- Sut y gallwn ni ddal dwylo ag eraill a chyd-weithio tuag at adeiladu 'Un Teulu o Un Genedl' yn ein cyd-destun ni?

## GWEDDÏAU I GLOI

**Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis ei iaith/hiaith ei hun. Cadwch gyfnod o dawelwch, a'i ddilyn gan gyfle i weddïo'n gyhoeddus am unrhyw faterion a gododd yn ystod y sesiwn. Gorffennwch drwy gyd-weddïo:**

Dduw tragwyddol,
cyffeswn i ti ein pechod.
Gwnaethost fyd sy'n baradwys
ond troesom ein tiroedd
yn fannau dagrau ac anhapusrwydd.
Mae pobl yn ymladd ei gilydd,
hil yn erbyn hil.
Mae holocost gwladgarwch cibddall
yn llifo drwy wledydd
yn difa dynoliaeth,
yn ein brawychu i ildio'r dydd iddo.
Dduw rhyddid,
rhyddha ni o bob caethiwed
fel y gall ein ffydd ynot ti
ein gosod ni'n rhydd
i greu gyda gwroldeb
fyd newydd –
cymdeithasau newydd. Amen.
*O Sri Lanka*

# ASTUDIAETH 4
# CYD-WEITHIO I ADEILADU'R EGLWYS YN TANZANIA



## GWEDDI AGORIADOL

**Treuliwch ychydig amser mewn tawelwch gyda'ch gilydd i lonyddu'ch meddyliau a dwyn ar gof bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd:**

Ysbryd Glân, dyro inni ffydd.
Ysbryd Glân, dyro inni obaith.
Ysbryd Glân, dyro inni gariad.
Adfywia dy waith yn ein gwlad
gan ddechrau gyda mi. Amen.
*Esgobaeth Namirembe, Uganda*

**Uchod:** Cynulleidfa Eglwys Sant Joseph, Peluhanda, yn cyfarch yr Esgob ar y ffordd gyda chanu a dawnsio llawen, Tanzania (*USPG/Leah Gordon*)

## CYFLWYNIAD

**Yn 1964, ganwyd Gwladwriaeth Unedig Tanzania allan o undeb rhwng Tanganyka a Zanzibar. Fe'u hunwyd o dan egwyddor Ujamaa, sy'n datgan fod person yn dod yn wir berson drwy fod yn berson mewn cymuned.** Arweiniodd y cyfuniad hwn rhwng dwy wlad hefyd at ffurfio Eglwys Anglicanaidd Tanzania drwy ddwyn dwy ffrwd o Anglicaniaeth ynghyd: y ffrwd fwy efengylaidd oedd yn tarddu yng nghenadaethau hanesyddol Cymdeithas Genhadol yr Eglwys (y CMS) i Tanganyka, a'r ffrwd fwy Anglo-Gatholig o Genhadaeth Prifysgolion i Ganolbarth Affrica oedd yn gweithio'n bennaf yn Zanzibar. Dyma'r Gwir Barchedig George Okoth, Esgob Esgobaeth Mara, yn esbonio sut iddynt gael eu huno drwy ddilyn cenhadaeth Duw:

## Stori o Tanzania

Mae Eglwys Anglicanaidd Tanzania yn gwybod mai'r rheswm pennaf dros ei bodolaeth yw bod yn ufudd i'r Comisiwn Mawr – yr unig fusnes sydd gennym yw gwneud disgyblion a dysgu iddynt bopeth a orchmynnodd Iesu. Unwyd ein dwy ffrwd yn y dasg hon gan nifer o ffactorau gan gynnwys cred yn awdurdod yr Ysgrythurau, Y Llyfr Gweddi Gyffredin a'r traddodiadau.

Deallwn fod yr Eglwys yn tyfu trwy bregethu Efengyl ddigyfaddawd Iesu yn ogystal ag ymateb i anghenion pobl. Mewn geiriau eraill, cenhadaeth gyfannol. Oni wnawn y ddau beth, bydd yr eglwys yn peidio â bod. Mae Eglwys Anglicanaidd Tanzania yn ymwybodol o egwyddor undeb mewn amrywiaeth. Cydnabyddwn fod gennym lawer math ar wahaniaethau yn Tanzania: ethnig, diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Rydym yn un mewn materion sy'n greiddiol i'r ffydd, megis y Beibl, ond rydym yn derbyn amrywiaethau ar faterion eraill, megis ffyrdd o addoli, lliw dillad clerigol a hyd pregethau.

Rydym yn mynnu fod gan bobl hawliau dynol beth bynnag yw eu hil, eu dosbarth neu eu grŵp ethnig. Rydym yn ymwrthod â cham drin geiriol tuag at berson arall ac yn ymddwyn tuag at ein gilydd gydag urddas a phurdeb. Gwnaed hyn oherwydd y sylfaen yr adeiladwyd ein cenedl arni, Ujamaa, sydd ynglŷn â pharchu bob person am ein bod yn credu y down yn bobl drwy bobl eraill.

Mae gan Anglicaniaid Tanzania ymdeimlad cryf iawn o gymuned. Caiff unrhyw ymddygiad sy'n bygwth unoliaeth y gymuned ei wahardd, gyda thynerwch ond yn gadarn. Rydym yn fwy cymunedol na'n unigolyddol yn ein meddyliau, ein bywydau a'n penderfynu. Mae Eglwys Anglicanaidd Tanzania bob amser yn cymell ei haelodau i fyw bywydau sy'n deilwng o'r Efengyl, gan ein bod yn byw ynghanol Moslemiaid a nifer o anghredinwyr. Efallai na fydd y rhain byth yn darllen y Beibl – byddant yn darllen ein bywydau ni fel eu Beibl. Felly, drwy ras Duw, credwn fod ein bywydau a'n gweithredoedd eu hunain yn gyfrwng efengyleiddio.

Wrth inni sôn am natur gyfun yr Eglwys Anglicanaidd, gadewch inni sicrhau lle bynnag y mae arferion traddodiadol mewn gwrthdaro â'r Ysgrythurau Sanctaidd yn y byd cyfnewidiol hwn, ein bod yn gollwng gafael ar y traddodiadau ac yn glynu at Efengyl ddigyfnewid Iesu Grist. Mae yn bosibl. Fe wnaed hyn a gellir ei wneud heddiw, trwy ras Duw.

## Hadithi kutoka Tanzania

Kanisa Anglikana Tanzania (KAT) linafahamu sababu muhimu ya uwepo wake kuwa ni utii kwa mamlaka kuu – kazi kubwa tuliyonayo ni kufanya watu kuwa waumini na kuwafundisha yale yote ambayo Yesu aliamuru. Katika hili, makundi yetu mawili yameunganishwa pamoja kwa namna mbalimbali ikiwemo uaminifu juu ya mamlaka ya neno la Mungu na kitabu cha Sala kwa watu wote.

Tunafahamu kuwa Kanisa linakuwa kwa kuhubiri injili iliyo thabiti ya Yesu kristo na kusaidia mahitaji ya kimwili ya mwanadamu, kwa maneno mengine, utume wa jumla. Kama hatutafanya hayo kwa pamoja, uwepo wa Kanisa utapotea.

KAT inafahamu dhana ya umoja palipo na utofauti. Tunakiri kuwa tunatofautiana kwa namna mbalimbali hapa Tanzania: kikabila, kiutamaduni, kijamii na kiuchumi. Tuna umoja katika mambo ya msingi ya imani, kama Biblia, lakini tunakubali tofauti katika masuala mengine kama namna za Ibada, rangi ya mavazi ya wahudumu na muda wa mahubiri.

Tunatetea haki za watu bila kujali utaifa, hali ya mtu au kabila lake. Tunakemea unyanyasaji wa maneno dhidi ya mtu na tunamchukulia kila mtu kwa heshima na staha. Tunafanya hivi kutokana na misingi iliyojenga taifa letu – Ujamaa. Yaani kumheshimu kila mtu, kwa kuwa tunaamini kwamba tumekuwa watu kupitia watu wengine.

Wa Anglikana wa Tanzania wana heshimu sana umoja – tabia zinazotishia umoja wa jamii yetu hazikubaliki. Tuna umoja zaidi kuliko ubinafsi katika fikra, maisha na utoaji maamuzi yetu. KAT kila mara imewahimiza waumini wake kuishi maisha kwa kuzingatia mafundisho ya injili, kwa kuwa tunaishi kati ya waislamu na wengi wasio amini. Watu hawa kamwe hawatasoma Biblia bali watayasoma maisha yetu kama Biblia yao. Kwa hali hiyo, kwa neema ya Mungu tunaamini maisha yetu na matendo yetu kwa pamoja ni namna ya kueneza injili.

Tunapozungumzia asili pana ya Kanisa Anglikana, tujiridhishe kuwa popote pale ambapo mapokeo ya asili yana kinzana na maandiko matakatifu katika dunia hii yenye kubadilika kwa kasi, ni vema kuacha asili hiyo na kushikilia injili isiyobadilika ya Yesu Kristo. Inawezekana, ilifanyika na inaweza kufanyika leo, kwa neema ya Mungu. ■

## Cwestiynau

- Mae llawer o Gristnogion yn byw ymhlith pobl sydd ddim yn rhannu eu credoau. Yn ôl Esgob George: 'Efallai na fydd y rhain byth yn darllen y Beibl – byddant yn darllen ein bywydau ni fel eu Beibl.' Sut y gallwn gymhwyso'r egwyddor hon i'n cyd-destun ni? Pa fath ar Efengyl y byddai pobl yn ei darllen yn ein bywydau ni?
- Mae Esgob George hefyd yn datgan fod Eglwys Anglicanaidd Tanzania 'yn mynnu fod gan bobl hawliau dynol beth bynnag yw eu hil, eu dosbarth neu eu grŵp ethnig.' I ba raddau y mae'n heglwys ni'n byw ar sail yr egwyddorion hyn, a sut y gallem wella ar hyn?

## DARLLENIAD O'R BEIBL

### 1 Corinthiaid 1. 10-17

10 Frodyr a chwiorydd, dw i'n apelio atoch chi ar ran ein Harglwydd Iesu Grist – stopiwch
ffraeo. Dw i eisiau i chi ddangos undod go iawn, yn lle bod wedi'ch rhannu'n 'ni' a 'nhw'.
11 Dw i'n gwybod y cwbl amdanoch chi – mae rhai o bobl Chloe wedi dweud wrtho i am
yr holl gecru yn eich plith chi. 12 Mae un ohonoch chi'n dweud, "Paul dw i'n ei ddilyn";
rhywun arall yn dweud, "Apolos dw i'n ei ddilyn," neu, "Dw i'n dilyn Pedr"; ac wedyn
un arall yn dweud, "Y Meseia dw i'n ei ddilyn"! 13 Ydy hi'n bosib rhannu'r Meseia yn
ddarnau? Ai fi, Paul, gafodd ei groeshoelio drosoch chi? Wrth gwrs ddim! Gawsoch
chi'ch bedyddio i berthyn i enw Paul? Na! 14 Diolch byth, wnes i fedyddio neb ond
Crispus a Gaius. 15 Felly all neb ohonoch chi ddweud eich bod wedi cael eich bedyddio
i'm henw i! 16 (O ie, fi fedyddiodd y rhai o dŷ Steffanas hefyd; ond dw i'n reit siŵr mod
i ddim wedi bedyddio neb arall.) 17 Cyhoeddi'r newyddion da ydy'r gwaith roddodd y
Meseia i mi, dim bedyddio pobl. A dw i ddim yn trio bod yn glyfar wrth wneud hynny
chwaith, rhag ofn i rym y neges am groes y Meseia fynd ar goll.

### Cwestiynau

- Pa draddodiadau a grwpiau Cristnogol sydd yn eich cymuned chi? A oes yna wahaniaethau hyd yn oed oddi fewn i un enwad Cristnogol e.e. mwy rhyddfrydol neu mwy ceidwadol? Pa mor dda y mae'r grwpiau hyn yn cydweithio â'i gilydd?
- Yn hanesyddol, arweiniodd gwahaniaethau rhwng Cristnogion at wrthdrawiadau difrifol a hyd yn oed rhyfeloedd. Beth yw'r potensial am anghytundeb difrifol ymhlith y grwpiau Cristnogol gwahanol yn eich ardal, a sut y byddwch yn delio â hyn?
- Adroddodd Chloe am gwerylon oddi mewn i'r eglwys yng Nghorinth. Beth fyddai hi'n ei adrodd am eich eglwys chi heddiw?
- Mae adnod 17 yn ddatganiad pwerus iawn. Sut fyddech chi'n ymateb i hyn yn eich cymuned chi?

## GWEDDÏAU I GLOI

**Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis ei iaith/hiaith ei hun. Cadwch gyfnod o dawelwch, a'i ddilyn gan gyfle i weddïo'n gyhoeddus am unrhyw faterion a gododd yn ystod y sesiwn. Gorffennwch drwy gyd-weddïo:**

Dduw hollalluog, drugarog Dad, gweddïwn arnat i gyfeirio dy eglwys sanctaidd,
er mwyn iddi drigo a thyfu yn ei hundod
a'i thystiolaeth drwy'r holl fyd, ac er mwyn i'n ffydd gynyddu.
Gweddïwn arnat ar inni gael byw mewn tangnefedd
a chael dy fendith ar ein gwaith. Amen.
*Litwrgi Unedig ar gyfer Dwyrain Affrica*

# ASTUDIAETH 5
# ANTUR DDWYIEITHOG YN NE LLUNDAIN



## GWEDDI AGORIADOL

**Treuliwch ychydig amser mewn tawelwch gyda'ch gilydd i lonyddu'ch meddyliau a dwyn ar gof bresenoldeb Duw. Yna gweddïwch gyda'ch gilydd:**

Arglwydd Iesu, rwy'n hapus am iti wneud fy nghymydog yn wahanol i mi.
Mae angen fy holl gymdogion arnaf i'm dysgu amdanat ti
gan fod fy nghymydog yn gwybod llawer peth nad wyf fi'n ei wybod.
Helpa fi i garu fy nghymydog fel yr wyf yn fy ngharu fy hunan. Amen.
*O Melanasia*

**CYFLWYNIAD**

**Ar draws y Cymundeb Anglicanaidd, y mae nifer o eglwysi wedi elwa o'r profiad o fod yn blwyfi amlieithog. Yn Eglwys Loegr, ceir profiad o'r fath yn Eglwys y Drindod Sanctaidd gyda Sant Mathew yn ne Llundain. Mae'r ficer, Y Parchg. Hugo Adán, yn arwain plwyf holl ddwyieithog, reit yng nghanol cymuned Sbaeneg ei hiaith yn ne Llundain. Ef hefyd yw Cenhadwr Sbaenaidd Esgobaeth Southwark. Yma mae'n ystyried agweddau cadarnhaol ar ei blwyf a'r heriau i Eglwys Loegr:**

---

## Stori o Loegr

Mae Sant Mathew yn hollol ddwyieithog. Mae'n Cyngor Plwyf, ein wardeniaid a phopeth a wnawn, ei drafod a'i gynhyrchu yn ymateb i'r realiti hwn. Yn ein plwyf y mae Sbaeneg a Saesneg yn swyddogol gyfartal, yn cael eu hyrwyddo a'u cymell. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i gynnal oedfaon mewn dwy iaith – mae'n strwythurau'n ddwyieithog.

Mae bod yn rhan o Eglwys Loegr gyda'i hagwedd o aml ddiwylliant eglwysig yn golygu fod Eglwys Sant Mathew yn mwynhau manteision y fath agwedd ond hefyd yn dioddef oherwydd ei gwendidau. Nid yw Eglwys Loegr yn unlliw: mae yn ein plith rai o bob lliw a llun, o aelodau Efengylaidd i Gatholigion, i bobl rhyddfrydol i rai ceidwadol, gyda sawl math arall rhwng y pegynau hyn. Rhydd y gallu hwn i ddal y fath amrywiaeth ynghyd yr Eglwys mewn lle anarferol yn y gymdeithas. Rwy'n credu mai dyma un o'r prif gryfderau.

Mae'r hyn sy'n digwydd yn Eglwys Sant Mathew yn bosibl am fod yr Eglwys yn gweld amrywiaeth fel gwerth Efengylaidd. Ond mae heriau hefyd. Eglwys Loegr yw'r eglwys genedlaethol ond nid yw bob amser yn glir beth a olygwn wrth 'cenedlaethol'. Credaf bod angen inni barhau i fyfyrio'n ddiwinyddol am hunaniaeth Anglicaniaeth yn ein Heglwys. Ar brydiau, mae'n anodd gwybod a gawn ein galw i fod yn Anglicaniaid – neu i fod yn Saeson! Rwy'n cofio mynd i gynhadledd ar gyfer ymgeiswyr am yr offeiriadaeth. Roedd pobl wedi dod o wahanol rannau o Ewrop. Roedd y siaradwr yn ceisio esbonio ystyr bod yn weinidog yn Eglwys Loegr. Hanes Lloegr oedd y ffocws. Dim gair am aml ddiwylliant ... Mae Eglwys Sant Mathew yn ceisio mynd y tu hwnt i'r model hwn. *Mae hon yn antur go iawn ac rydym yn buddsoddi llawer o egni i'w gwneud yn llwyddiant*.

**Llun:** Y Parchg Ddr Hugo Adán yn taenu Dŵr Sanctaidd dros ymgeiswyr conffirmasiwn yn dilyn offeren Sbaeneg yn Eglwys Sant Matthew/San Mateo, yr Eliffant, Llundain. (*USPG/Leah Gordon*)

## Una historia de Inglaterra

La parroquia de San Mateo es completamente bilingüe. Nuestro PCC, nuestros churchwardens, y todo lo que hacemos, discutimos y producimos responde a esa realidad. En San Mateo inglés y español son co-oficiales y ambos son usados por igual. Este bilingüismo va más allá de ofrecer servicios religiosos en ambas lenguas pues lo que en realidad significa es que toda la estructura parroquial es bilingüe.

Ser parte de la Iglesia de Inglaterra, con la comprensión que ésta tiene del multiculturalismo eclecisal, le permite a nuestra parroquia vivir plenamente la diversidad y alegrarse con ella. La Iglesia de Inglaterra no es monocromática sino que tiene una gran riqueza de posicionamientos y diversidad teológica: desde los que se consideran más evangélicos a los que se sienten más católicos pasando por todo tipo de posiciones intermedias. La capacidad de mantener la unidad en medio de tanta diversidad es uno de los grandes dones de pertenece a la Iglesia de Inglaterra.

Esta diversidad la coloca en un lugar privilegiado para hablar de unidad respetando la diversidad en medio de una sociedad a veces en exceso polarizada.

Pero también hay algunos problemas. La Iglesia de Inglaterra es una Iglesia nacional pero a veces no queda claro qué estamos queriendo decir cuando decimos “nacional”. Todavía queda much que reflexionar teológicamente hablando sobre la identidad de nuestro anglicanismo aquí en Inglaterra. A veces cuando ministramos a personas de otras culturas y lenguas no queda clara la diferencia entre ser anglicano y ser inglés en la propuesta eclesial que les damos. Todavía recuerdo ir a una conferencia vocacional organizada para candidatos al sacerdocio venidos de toda Europa. Uno de los ponentes, mientras trataba de exponer el significado de ser ministro en la Iglesia de Inglaterra hoy, se refirió en exclusividad a la historia de Inglaterra sin hacer una sola referencia al multiculturalismo. En San Mateo tratamos de ir más allá y explorar una respuesta. Es sin duda una aventura que merece la pena aunque demande lo mejor de nuestras energías. ■

## Cwestiynau

- Y mae cynulleidfa Eglwys Sant Mathew yn amlwg yn ddwyieithog: Sbaeneg a Saesneg. Ydych chi’n gwybod faint o ieithoedd a siaredir yn eich eglwys neu’ch cymuned chi? Pa wahaniaeth y mae bod yn rhan o genedl ac eglwys sy’n swyddogol ddwyieithog yn ei wneud?
- Mewn rhai cynulleidfaoedd, mae gwahaniaethau ieithyddol yn fwy anniffiniol: efallai fod rhai’n fwy cartrefol gydag un math ar iaith litwrgaidd neu ddull cerddorol mewn addoliad na rhai eraill. Ym mha ffyrdd ymarferol y gallwn ddathlu’r gwahaniaethau oddi fewn i un gymuned eglwysig?
- Y mae Hugo Adán yn ein herio i fyfyrio’n ddiwinyddol ar hunaniaeth Anglicaniaeth. Beth allai’ch cymuned eglwysig chi a phrofiad yr Eglwys yng Nghymru o fod yn eglwys a nodweddir gan amrywiaeth a dwyieithrwydd ei gyfrannu at y drafodaeth hon?

## DARLLENIAD O'R BEIBL

### Actau 2.1-12

1 Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. 2 Ac yn sydyn dyma
nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n
cyfarfod. 3 Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn
gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. 4 Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd
Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i
wneud hynny. 5 Bryd hynny roedd Iddewon crefyddol o wahanol wledydd wedi dod i aros
yn Jerwsalem. 6 Clywon nhw'r sŵn hefyd, ac roedd tyrfa fawr wedi casglu at ei gilydd i weld
beth oedd yn digwydd. Roedden nhw wedi drysu, am fod pob un ohonyn nhw yn clywed ei
iaith ei hun yn cael ei siarad. 7 Roedd y peth yn syfrdanol! "Onid o Galilea mae'r bobl yma'n
dod?" medden nhw. 8 "Sut maen nhw'n gallu siarad ein hieithoedd ni?" 9 (Roedd Parthiaid
yno, a Mediaid, Elamitiaid, pobl o Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, 10
Phrygia, Pamffilia, yr Aifft, a'r rhan o Libia sydd wrth ymyl Cyrene; pobl oedd ar ymweliad
o Rufain 11 – rhai yn Iddewon ac eraill yn bobl oedd wedi troi at y grefydd Iddewig – a hefyd
Cretiaid ac Arabiaid) "Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau
rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!" 12 Dyna lle roedden nhw'n sefyll yn syn, heb ddim
clem beth oedd yn digwydd. "Beth sy'n mynd ymlaen?" medden nhw.

### Cwestiynau

- Un o roddion yr Ysbryd Glân ar y Pentecost oedd trosglwyddo neges Iesu i ystod eang o bobl. Sut allai'r eglwys yn yr unfed ganrif ar hugain ddefnyddio dulliau a thechnoleg gwahanol i gyflwyno'r Efengyl mewn modd ffres heddiw?
- Sut mae'ch eglwys chi'n mynd i'r afael a chyfathrebu'r Newyddion Da, ar lafar ac mewn gweithredoedd, ymhlith cymunedau sydd ar yr ymylon? Beth yn fwy y gallech ei wneud?

## GWEDDÏAU I GLOI

**Cyd-weddïwch Weddi'r Arglwydd, gan wahodd pawb i ddewis ei iaith/hiaith ei hun. Cadwch gyfnod o dawelwch, a'i ddilyn gan gyfle i weddïo'n gyhoeddus am unrhyw faterion a gododd yn ystod y sesiwn. Gorffennwch drwy gyd-weddïo:**

Bendigedig fyddo Duw yn llawenydd y cread.
Bendigedig fyddo Duw yn danfon Iesu.
Bendigedig fyddo Duw yng ngwaith yr Ysbryd.
Bendigedig fyddo Duw mewn merthyr a sant.
Bendigedig fyddo Duw yn lledaeniad yr Efengyl i bob hil a phob gwlad.
Bendigedig fyddo Duw yn eglwys ein dydd, yn ei phregethu a'i thystiolaeth
ac yn ei thrysorau o ras.
Bendigedig fyddo Duw a'n galwodd i genhadaeth, sy'n maddau ac iachau,
ac sy'n nerth yn ein gwendid. Amen. *USPG*



# BYDD EICH CYFRANIADAU YN CEFNOGI RHAGLEN CYFNEWID LLEOEDD USPG

Mae'r rhaglen hon yn hyrwyddo danfon a derbyn personél cenhadol, yn weinidogion ac yn bobl leyg, rhwng Taleithiau Anglicanaidd ar draws y Cymundeb. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys offeiriaid o Cape Coast, Ghana yn mynd i'r Gambia, ac o Ho yn Ghana i weithio gyda'r Eglwys yn Tangiers, Morocco. Mae'n partneriaid wedi clustnodi hyn fel blaenoriaeth genhadol, a cheisiwn ei gynyddu drwy'n hapêl Grawys 2020.

**Gallwch gyfrannu drwy'r ffurflen gyferbyn, galw 020 7921 2200 neu ymweld â www.uspg,org.uk/donate**

**Above:** Y Chwaer Lucy yn gweddïo dros Rustika o flaen yr allor mewn Eglwys Anglicanaidd yn Matiganjole, Tanzania (*USPG/Leah Gordon*)

# YES, OUR CHURCH/GROUP WOULD LIKE TO MAKE A DONATION

Church/group name ..................................................................................................

USPG supporter number (if known) ..............................................................................

Your role at church (eg Treasurer) ...............................................................................

Address ..................................................................................................................

Town/city .......................................................................... Postcode ..................................

Telephone .......................................................... Email ...................................................

**Here is our gift of: £/€** ............................ *(delete as appropriate)*

**1.** ☐ I enclose a cheque/CAF voucher payable to 'USPG'

**2.** ☐ Please debit my Credit/Debit/CAF card *(delete as appropriate)*

Card number:

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | | |

Expiry date: ......./...... Security code ............................ (last 3 digits on signature strip)

Signature ................................................................................ Date ....... /......./.......

**3.** ☐ Bank transfer has been made to USPG, Account no. 50832596, Sort Code 20-32-37, Barclays Bank PLC, London Corporate Banking, Registered charity number 234518.

**4.** ☐ I enclose ............................... Gift Aid collection envelopes

**5.** Please keep me informed. Send me:

☐ Monthly e-newsletter to my email address above

☐ Quarterly supporter magazine and prayer diary by post/email *(delete as appropriate)*.

*You'll be added to our secure database so we can communicate with you as you have indicated. USPG will never share your details or send you information you don't want to receive. You have the right to withdraw consent at any time by contacting us at info@uspg.org.uk*

**6.** Acknowledgment

☐ I don't need a thank you.

☐ Send me a thank you via email.

☐ Send me a thank you via post.

*(Nb: To minimise expenditure only gifts of £10+ can be thanked this way).*

**Please return completed form to:** USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB

51250 UNR COR LENT 2020SC

# PERSONAL DONATION FORM

**I want to help USPG to support the work of the world church.**

**1.** I'd like to give (please delete £/€ as appropriate)

☐ £/€10 ☐ £/€15 ☐ £/€50 ☐ £/€............................

Title........................................... First name(s)..............................................................................

Surname.........................................................................................................................

Address..........................................................................................................................

Town/city.................................................................. Postcode........................................

Email..............................................................................................................................

**2.** ☐ I enclose a cheque/CAF voucher payable to 'USPG'

**3.** ☐ Please debit my Credit/Debit/CAF card (circle as appropriate)

Card number: | | | | | | | | | | | | | | | | |

Expiry date: ......./...... Security code: ...............................(last 3 digits on signature strip)

Signature ........................................................................................ Date ....... /......./......

**4.** Make your donation go further with Gift Aid.

Please tick below if you are eligible.

☐ I am a UK tax payer and want all my donations, past, present and future to USPG to be treated as Gift Aid donations. I understand that if I pay less Income Tax and/or Capital Gains Tax than the amount of Gift Aid claimed on all my donations in that tax year, it is my responsibility to pay any difference. I understand that USPG will reclaim 25p of tax on every £1 that I give and that Gift Aid will be used to fund the work of USPG around the world.

**5.** Please keep me informed about the work of USPG around the world. Send me:

☐ Monthly e-newsletter to my email address above

☐ Quarterly supporter magazine and prayer diary by post/email *(delete as appropriate)*.

*You'll be added to our secure database so we can communicate with you as you have indicated. USPG will never share your details or send you information you don't want to receive. You have the right to withdraw consent at any time by contacting us at info@uspg.org.uk or call us on 020 7921 2200.*

**6.** Acknowledgment

☐ I don't need a thank you.

☐ Send me a thank you via email.


☐ Send me a thank you via post. *(Nb: To minimise expenditure only gifts of £10+ can be thanked this way).*

**Please return completed form to:** USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB

51250 UNR COR LENT 2020SI

# USPG STUDY COURSES

**Exploring the Bible with the world church**




## LIVING AN AUTHENTIC LIFE

Explore the meaning of discipleship, with reflections from the church in India, Malawi, Pakistan, South Africa and England. We ask what does it mean to live an authentic life as a disciple of Christ and suggest it involves being true to ourselves, true to those we meet, and true to God.

## THE PROPHETIC VOICE OF THE CHURCH

Today there are many prophetic voices throughout the world church: calling us to be like Jesus, who stood on the margins, comforting the oppressed and challenging the comfortable. This course explores this through the ministry of the church in India.

## THE GOSPEL IN ACTION

Look at the meaning of the gospel from five different perspectives. With reflections from the church in Brazil, Ghana, the Philippines, Sri Lanka and Zambia, we look at how the gospel can inspire us to live differently and challenge injustice.


## MIGRATION AND MOVEMENT


Look at the complex issues of economic migration, refugees, human trafficking, and the displacement of communities due to climate change. We do not claim to have the answers, but hope this course will inspire us to engage more deeply with the issues.


## ALL THINGS ARE POSSIBLE

This course explores how Anglican Churches in Africa, Asia and Latin America have a vital role to play in fulfilling the UN's Sustainable Development Goals, which are helping to end extreme poverty, fight injustice and tackle climate change.


**Read online and order copies. Visit uspg.org.uk/study or call 020 7921 2200**


THE PROPHETIC VOICE OF THE CHURCH
A study course looking at the radical nature of the gospel, with a special focus on the church in India
UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
USPG


UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
JOURNEY WITH US
Short-term placements with the world church
USPG



ALL THINGS ARE POSSIBLE
A study course exploring how faith in God can change the world
UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
USPG


FAITH IN A CHANGING CLIMATE
Stories from the world church. Ideas for prayer and action.
With contributions from
HOPE FOR THE FUTURE
USPG


PRAY WITH THE WORLD CHURCH
PRAYERS AND REFLECTIONS FROM THE ANGLICAN COMMUNION
17 February – 15 June 2019
UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
USPG


TRANSMISSION
News and features from the Anglican Communion
Winter 2018
CHURCHES TACKLE CLIMATE JUSTICE
– Page 6
OUTREACH WITH STREET ART IN BRAZIL
– Page 8
EARLY CHURCH TEACHES SOLIDARITY
– Page 18
UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
USPG


EXPANDING HORIZONS
Short-term placements for clergy, ordinands and church workers
UNITED SOCIETY PARTNERS IN THE GOSPEL
USPG


OPEN TO ENCOUNTER
Mission in the 21st century
USPG

# BE PART OF THE CHANGE

**As a global Anglican mission agency, USPG seeks to enable churches around the world to act as the hands and feet of Christ in the communities they serve – enlivening faith, strengthening relationships, unlocking potential and championing justice. Be a part of this mission!**

## PRAY FOR THE WORLD CHURCH

You can receive this free prayer diary by post or read it online.
www.uspg.org.uk/pray

## BE INSPIRED BY A USPG SPEAKER

To book a speaker, email Gwen Mtambirwa at gwenm@uspg.org.uk or call 020 7921 2231.

## USE OUR BIBLE STUDY COURSES

Our courses cover a wide range of topics, all featuring stories from the world church. www.uspg.org.uk/resources

## SIGN UP TO OUR EMAIL NEWSLETTER

Receive monthly news, features and links to church resources.
Sign up at www.uspg.org.uk

✝ USPG yw'r asiantaeth genhadol Anglicanaidd sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau'n fyd eang yng nghenhadaeth Duw, i fywhau ffydd, i gryfhau cyd-berthynas, datgloi potensial a sefyll dros gyfiawnder. Fe'i sefydlwyd yn 1701.

---

Thank you for using this study guide. If you would like to make a donation to cover the costs you can do so here www.uspg.org.uk/donate Your generous donations ensure we can continue to provide this study resource.

For more information about USPG, visit www.uspg.org.uk or call 020 7921 2200. To download a copy of this course please visit www.uspg.org.uk/lent2020 and to order more copies please visit www.uspg.org.uk/order

**USPG**
5 Trinity Street
London
SE1 1DB

020 7921 2200
info@uspg.org.uk
www.uspg.org.uk
@USPGglobal

ISSN 2631-4959
Registered charity number 234518

✝ UNITED SOCIETY
PARTNERS IN THE GOSPEL

USPG✝